**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A48 (CYLCHFAN LLANSAWEL I GYLCHFAN SUNNYCROFT, CASTELL-NEDD PORT TALBOT) (DILEU CYFYNGIADAU) 2025**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn drwy arfer eu pwerau o dan adrannau 82(2) a 83(1) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, sy'n dod i rym ar 14 MaI 2025.

Effaith y Gorchymyn yw dileu cyfyngiadau er mwyn adfer y terfyn cyflymder cenedlaethol ar y darnau o gefnffordd yr A48 a bennir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn.

Yn ystod cyfnod o 6 wythnos o 14 Mai 2025 ymlaen, gellir edrych ar gopi o'r Gorchymyn a'r plan, yn rhad ac am ddim, yn ystod oriau agor arferol yn Llyfrgell Port Talbot – Llawr Cyntaf, Canolfan Siopa Aberafan, Port Talbot SA13 1PB. Gellir gweld y dogfennau hyn hefyd ar wefan Llywodraeth Cymru yn https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn, y Gorchymyn, y plan a'r Datganiad o Resymau, yn rhad ac am ddim, drwy e-bostio Trafnidiaeth.YGangenOrchmynion@llyw.cymru neu drwy ysgrifennu at y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA2277981.**

**J SADDLER**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**YR ATODLEN**
**Dileu Cyfyngiadau**

Y darn o gerbytffordd tua'r gogledd yr A48 sy'n ymestyn o bwynt 20 metr i'r gogledd o'i chyffordd â system gylchu Cylchfan Sunnycroft, hyd at bwynt 420 o fetrau i'r de o'i chyffordd â system gylchu Cylchfan Llansawel.

Y darn o gerbytffordd tua'r de yr A48 sy'n ymestyn o bwynt 17 o fetrau i'r de o'i chyffordd â system gylchu Cylchfan Llansawel, hyd at bwynt 362 o fetrau i'r de o'i chyffordd â system gylchu Cylchfan Sunnycroft.

**THE A48 TRUNK ROAD (BRITON FERRY ROUNDABOUT TO SUNNYCROFT ROUNDABOUT, NEATH PORTH TALBOT) (DERESTRICTION) ORDER 2025**

The Welsh Ministers have made an Order in exercise of their powers under sections 82(2) and 83(1) to the Road Traffic Regulation Act 1984, which comes into force on 14 May 2025.

The effect of the Order is to derestrict to the national speed limit the lengths of the A48 trunk road specified in the schedule to this Notice.

During a period of 6 weeks from 14 May 2025 a copy of the Order and plan may be inspected, free of charge, during normal opening hours at Port Talbot Library – First Floor, Aberafan Shopping Centre, Port Talbot SA13 1PB. These documents can also be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

**A copy of this Notice, the Order, plan and Statement of Reasons can be obtained in larger print, free of charge, by emailing TransportOrdersBranch@gov.wales or writing to Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ quoting reference number qA2277981.**

**J SADDLER**
Transport
Welsh Government

**SCHEDULE**
**Derestriction**

The length of the A48 northbound carriageway that extends from a point 20m north of its junction with Sunnycroft Roundabout gyratory, to a point 420m south of its junction with Briton Ferry Roundabout gyratory.

The length of the A48 southbound carriageway that extends from a point 17m south of its junction with Briton Ferry Roundabout gyratory, to a point 362m south of its junction with Sunnycroft Roundabout gyratory.